**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 27.03.26 |
| **Pwnc / Subject:** | Ymateb parthed Dyfodol addysg drydyddol yng Nghymru |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

At ei gilydd, rydym yn cefnogi'r symudiad tuag at system drydyddol fwy cydlynus, cydweithredol ac sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, ond yn pwysleisio bod rhaid i ddiwygio flaenoriaethu ansawdd, dilyniant a chynaliadwyedd dros dargedau cyfranogiad yn unig.

Mae gwendid llwybrau dysgwyr presennol yn destun pryder allweddol, yn enwedig ar lefelau is. Mae llawer o ddysgwyr yn dechrau mewn addysg bellach wedi ymddieithrio, gyda phresenoldeb gwael ac anghenion ychwanegol, ac nid yw digon ohonynt yn symud ymlaen yn llwyddiannus i lefel 3. Rydym yn amlygu'r angen am lwybrau dilyniant cliriach, mwy uchelgeisiol gydag aliniad gwell rhwng ysgolion, darpariaeth ôl-16 ac anghenion y farchnad lafur. Rydym hefyd yn awgrymu y dylid ystyried agor llwybrau galwedigaethol ar gyfer pob dysgwr 14–16. Byddai angen cynllunio strategol yn y tymor hir ar gyfer hyn.

Rydym yn pwysleisio bod pwysau cynyddol yn y system, yn cynnwys cynnydd yn niferoedd y dysgwyr, breuder ariannol, prinderau yn y gweithlu ac anghenion cynyddol dysgwyr. Yn aml, disgwylir i ysgolion a cholegau wneud iawn am heriau cymdeithasol ehangach heb adnoddau digonol. Rydym yn nodi y gallai cystadleuaeth rhwng darparwyr danseilio cynaliadwyedd, tegwch ac ehangder y cwricwlwm heb gynllunio cryf ar lefel system.

Rydym yn eirioli dros gydweithio gwell ar draws y sector, wedi'i gefnogi gan arweinyddiaeth system effeithiol (yn enwedig gan Medr), i ddiogelu darpariaeth mewn ardaloedd gwledig, dosbarthiadau chweched bach ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae llwybrau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg yn arbennig o annatblygedig ac yn gofyn cael buddsoddiad strategol a chynllunio'r gweithlu.

O ran polisi, rydym yn rhybuddio yn erbyn targedau rhy syml neu rai sy'n cael eu gyrru gan faint, gan ddadlau yn hytrach am ffocws ar ddeilliannau dysgwyr, tegwch ac effaith yn y tymor hir. Fodd bynnag, rydym yn cefnogi'r angen i gynyddu ein huchelgais o ran cyfran gyffredinol y dysgwyr sy'n symud ymlaen i lefelau uwch o gymwysterau trwy ddysgu amser llawn neu ran-amser neu drwy brentisiaethau. Mae angen data gwell i gefnogi dadansoddi a gwerthuso effaith. Dylai dysgu gydol oes, medrau hanfodol (llythrennedd, rhifedd, digidol), darpariaeth cyfrwng Cymraeg a darpariaeth hyblyg fod yn flaenoriaethau.

Rhaid mynd i'r afael â rhwystrau allweddol ar gyfer dysgwyr, fel cost, cludiant a mynediad. Rydym yn amlygu'r cyfleoedd a'r risgiau yn sgil deallusrwydd artiffisial (AI), gan alw am ganllawiau cenedlaethol clir a fframweithiau moesegol.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cyfranogiad**

**C1: Pa dystiolaeth bellach sydd ar gael ynghylch cefndiroedd a llwybrau dysgwyr ifanc sy'n dechrau yn y coleg ar gymwysterau lefel is? Ai dyma'r llwybrau cywir ar gyfer y dysgwyr hyn?**

Mae colegau, yn benodol, yn wynebu heriau (ariannol, addysgu a dysgu, gwasanaethau cymorth) o nifer gynyddol y dysgwyr sy'n dechrau gyda chymwysterau lefel is. Fodd bynnag, nid lefel y cymwysterau yn unig sy'n herio colegau ac addysg bellach yn gyffredinol. Mae dysgwyr nad oeddent yn ymgysylltu'n dda yn eu dysgu yn eu blynyddoedd olaf yn yr ysgol yn cyrraedd yn gynyddol. Mae mwy o ddysgwyr nag erioed yn cael addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) ym Mlwyddyn 11, ac ochr yn ochr â hyn, mae cyfrannau uwch o ddysgwyr nag erioed yn cael addysg ddewisol yn y cartref. Mae dysgwyr sy'n symud ymlaen o addysg ddewisol yn y cartref yn 16 oed yn hynod annhebygol o ddychwelyd i'r ysgol - mae bron pob un o'r dysgwyr hyn yn mynd i goleg, yn dechrau dilyn prentisiaeth neu'n chwilio am gyflogaeth. Y cyfraddau presenoldeb ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 11 yw'r isaf o blith pob grŵp blwyddyn. Felly, nid yw cyfran gynyddol o ddysgwyr yn 16 oed wedi bod mewn arferion dyddiol o ran ymgysylltu â dysgu. Yn aml, mae gan y dysgwyr hyn anghenion lles sylweddol pan fyddant yn cyrraedd, hefyd. Nododd ein hadroddiad diweddar, Mwy na dewis olaf: Trefniadau ar gyfer gwasanaethau tiwtora AHY yng Nghymru, a'u hansawdd - Estyn, ei bod yn hynod brin i awdurdodau lleol barhau i gefnogi dysgwyr mewn darpariaeth AHY ar ôl iddynt fod yn 16 oed, hyd yn oed pan mae'r ddarpariaeth hon yn cael effaith dda o ran cefnogi ailymgysylltu a magu hyder.

I rai dysgwyr, mae coleg yn darparu llwybrau difyr ar ôl iddynt adael yr ysgol. Er bod y llwybrau hyn yn briodol ar gyfer llawer o ddysgwyr, mae ein tystiolaeth yn awgrymu nad yw llwybrau dilyniant bob amser yn ddigon clir neu'n ddigon uchelgeisiol, ac mae gormod o ddysgwyr yn profi dilyniant araf neu ohiriedig. Byddai alinio cryfach rhwng cwricwla ysgolion, llwybrau ôl-16 ac anghenion y farchnad lafur leol yn gwella deilliannau. Mae'r diffyg llwybrau galwedigaethol yn 14-16 oed yn cyfrannu at y man cychwyn lefel isel ar gyfer rhai dysgwyr yn 16 oed. Er bod capasiti ar gyfer prentisiaethau iau wedi cynyddu, nid ydynt yn opsiwn ym mhobman yng Nghymru o hyd; hefyd, nid ydynt yn opsiwn y gall unrhyw ddysgwr ei ddewis, ac nid ydynt yn brentisiaethau go iawn am nad ydynt yn arwain at gymwysterau sy'n seiliedig ar gymhwysedd.

Er bod cyfran gymharol uchel o ddysgwyr yng Nghymru yn dewis llwybrau galwedigaethol yn 16 oed, mae cyfran gymharol isel o'r dysgwyr hyn yn ennill cymhwyster lefel 3 o gymharu â gwledydd Ewropeaidd eraill, a mwy o ddysgwyr yn cyflawni ar lefelau 1 a 2. Mae rhesymau amrywiol am hyn. Mae'n rhannol o ganlyniad i'r ffaith nad yw dysgwyr wedi ennill cymwysterau galwedigaethol yn seiliedig ar gymhwysedd ar lefel 1 neu 2, er na ddylai hyn o reidrwydd fod yn ffactor cyfyngol bob amser. Mewn rhai achosion, mae ansawdd a lefel yr her i ddysgwyr mewn colegau yn ffactor mewn cyfraddau cyflawni. Ar hyn o bryd, rydym yn gwerthuso materion presenoldeb a chyfranogiad ar gyfer dysgwyr mewn dosbarthiadau chweched a cholegau, ac rydym yn disgwyl cyhoeddi ein hadroddiad ar hyn ar 1 Hydref 2026. Mae eisoes yn glir fod cyfraddau presenoldeb yn wan mewn colegau, ac mae dysgwyr yn colli'r hyn sydd gyfwerth â diwrnod yr wythnos ar gyfartaledd. Mae hyn yn anochel yn effeithio ar gynnydd a chyflawniad dysgwyr.

Er bod *Dyfodol Addysg Drydyddol yng Nghymru* yn cydnabod bod dysgwyr ar gyrsiau lefel is yn fwy tebygol o roi'r gorau i ddilyn eu cyrsiau, mae'n rhoi sylw annigonol i'r ffactorau cymdeithasol a demograffig ehangach sy'n effeithio ar ymgysylltiad a dilyniant dysgwyr. Mae tlodi cynyddol, niferoedd cynyddol o ddysgwyr sydd wedi wynebu tarfu ar brofiadau addysgol (yn cynnwys addysg heblaw yn yr ysgol ac addysg yn y cartref), anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl, ac amserlenni ysgol llai (rhan-amser) ar gyfer dysgwyr unigol i gyd â goblygiadau ar gyfer priodoldeb cynigion cwricwlwm trydyddol presennol. Heb y cyd-destun hwn, mae perygl y bydd disgwyliad ymhlyg i golegau wneud iawn am bwysau ar y system ehangach. Mae dyfodol cynaliadwy ar gyfer addysg drydyddol yn gofyn am roi cydnabyddiaeth gliriach i gyfrifoldebau ar y cyd Llywodraeth Cymru, gwasanaethau iechyd, awdurdodau lleol, cyrff dyfarnu, Medr, Cymwysterau Cymru ac arolygiaethau.

Nid yw llwybrau presennol ar gyfer dysgwyr ar raglenni lefel mynediad, lefel 1 neu lefel 2, modelau cwricwlwm a manylebau cymwysterau yn gyson addas at eu diben. I ymateb i hynny, mae colegau, er enghraifft, yn gwneud defnydd cynyddol o fframweithiau medrau byw yn annibynnol anachrededig i gefnogi datblygiad dysgwyr. Gall yr arfer hon guddio'r darlun anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac amlygu'r angen am fwy o eglurder a chysondeb o ran sut caiff ADY ei ddiffinio ar draws y sector trydyddol. Nid oes gan bob un o'r darparwyr y cyfeirir atynt yn y ddogfen yr un dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), ac mae angen disgrifio'r gwahaniaeth hwn yn gliriach. Mae tystiolaeth o'n hymweliadau cyswllt a'n gwaith thematig yn nodi nad yw colegau'n teimlo bod ganddynt adnoddau digonol i gyflawni eu dyletswyddau. Mae heriau yr adroddir amdanynt yn aml yn cynnwys capasiti cyfyngedig y gweithlu ac arbenigedd cyfyngedig, prosesau ac arfer anghyson ar draws adrannau, cydweithio cyfyngedig ag ysgolion ac awdurdodau lleol, anawsterau o ran defnyddio darpariaeth arbenigol, a gwendidau yng nghyfnod pontio dysgwyr a chynllunio ôl-16. Mae gan y cyfrifoldebau hyn oblygiadau hefyd i faich gwaith staff a graddfa ac ansawdd dysgu proffesiynol.

Byddai cyfeiriadau at gostau cynyddol yn gysylltiedig â thwf mewn niferoedd dysgwyr lefel is a ‘chymhlethdod’ cynyddol dysgwyr yn elwa ar fframio cyd-destunol ehangach. Yn aml, mae pwysau o ran costau yn adlewyrchu ffactorau systemig, yn cynnwys gofynion gweithredu polisïau, cyfyngiadau cyllid a gwaith amlasiantaethol amrywiol, yn hytrach na chynnydd cynhenid yn angen dysgwyr. Mae anghenion dysgwyr yn aml yn syml; fodd bynnag, mae’r systemau a’r cymorth sydd eu hangen i ddiwallu’r anghenion yn aml yn gymhleth. Dylid cymryd gofal hefyd i beidio â chyfystyru angen â difrifoldeb anhawster dysgu, gan gydnabod y gallai dysgwyr ar draws pob lefel o ddarpariaeth wynebu rhwystrau sylweddol rhag cymryd rhan a llwyddo.

**C2: Beth yn fwy ydym ni’n ei wybod am achosion cyfagos y cynnydd diweddar mewn cofrestriadau mewn colegau? A ydym yn disgwyl iddo barhau?**

Mae ffactorau amrywiol i’w hystyried. Mae tystiolaeth o ganfyddiadau arolygiadau craidd ac ymgysylltiad arolygwyr cyswllt â cholegau yn awgrymu bod y cynnydd diweddar yn cael ei yrru gan gyfuniad o dwf demograffig yn y garfan 16–18, materion cyn-16 (ceir manylion am hyn yn ein hymateb i gwestiwn 1, ond mae dysgwyr sy’n symud ymlaen o addysg ddewisol yn y cartref yn berthnasol yn benodol yma), ailalinio deilliannau graddau TGAU ar ôl COVID, ansicrwydd yn y farchnad lafur, ynghyd â galw cynyddol am lwybrau galwedigaethol a thechnegol. Ffactor arall parhaus yw’r ffaith fod nifer y dosbarthiadau chweched yng Nghymru wedi gostwng yn raddol dros gyfnod, ac mae hyn yn anochel yn golygu bod cyfran uwch o ddysgwyr yn symud ymlaen i goleg.

Byddai’r tueddiadau demograffig a ragwelir yn y garfan 16-18 yn awgrymu bod y cynnydd mewn cofrestriadau yn debygol o barhau trwodd i 2030. Rhagwelir y bydd y garfan hon yn codi o 96,000 yn 2024 i bron i 110,000 erbyn 2030, sef cynnydd o ryw 14% dros y cyfnod.

**C3: Pa resymau allai fod dros lefelau uwch o fyfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr hŷn yn dechrau mewn addysg uwch yng Nghymru? A all / a ddylai Llywodraeth Cymru geisio cynyddu mynediad i addysg uwch amser llawn yn 18 oed o ystyried cyfraddau uwch cyfranogiad myfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr hŷn?**

Dylai gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr ar lefel 2 yn 16 oed a lefel 3 yn 18 oed fod yn flaenoriaeth uchel i Gymru, gan nad ydym yn perfformio’n ffafriol ymhlith gwledydd tebyg y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn y mesurau hyn. Byddai gwelliannau mewn perfformiad yn y mesurau hyn yn golygu bod mwy o ddysgwyr mewn sefyllfa lle byddai addysg uwch yn opsiwn yn 18 oed.

Dylai’r strategaeth gyffredinol ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 ganolbwyntio yn y pen draw ar gefnogi pob dysgwr i mewn i gyflogaeth bwrpasol, neu wedi iddynt fod mewn cyflogaeth, symud ymlaen o fewn eu gyrfa neu newid gyrfa. Nid oes sicrwydd y bydd

cyfraddau uwch o ddechrau mewn addysg uwch yn 18 oed yn arwain at gyfraddau cyflogaeth uwch yng Nghymru. Dylai'r ffocws fod ar ddarparu llwybrau addas ar gyfer pob dysgwr, gan sicrhau bod cyngor ac arweiniad da ar gael am y llwybrau hyn, ac am ddarparu cymorth ac ymyrraeth effeithiol ar gyfer dysgwyr o dan 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH), neu mewn perygl o fod felly. Dylai strategaeth hefyd geisio mynd i'r afael mewn ffordd dargedig â'r annhegwch o amgylch Cymru yn hytrach na dim ond codi cyfran gyffredinol y dysgwyr sy'n dechrau mewn addysg uwch yn 18 oed.

**C4: Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei huchelgais i ddau o bob tri o bobl ifanc gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant lefel 4+ erbyn iddynt fod yn 25 oed, sy'n gynnydd o'r gyfradd gyfranogi bresennol, sef 50%. Cyflwynwyd is-darged hefyd i o leiaf 10% o bobl ifanc ddilyn addysg dechnegol uwch neu brentisiaethau erbyn iddynt fod yn 25 oed erbyn 2040. A ddylai Cymru osod targed tebyg i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer cyfranogiad lefel 4 a/neu brentisiaethau?**

Rydym o'r farn y dylai unrhyw dargedau ar gyfer Cymru ystyried demograffeg, anghenion marchnad lafur a chyd-destun dwyieithog Cymru. Gallai targedau dyheadol fod yn fuddiol os yw cyllid realistig, data trylwyr a fframwaith sicrhau ansawdd cryf yn cyd-fynd â nhw. Mae'n bwysig y dylai targedau osgoi cymell maint ar draul deilliannau dysgwyr. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod llwybrau cyllid yn cefnogi unrhyw dargedau a osodir ac ystyried unrhyw ganlyniadau bwriadedig, yn benodol, cynyddu cymwysterau meysydd galwedigaethol nad ydynt yn cyd-fynd yn dda â thueddiadau marchnadoedd llafur. Mae ein pwynt i ymateb i'r cwestiwn blaenorol am wella perfformiad ar lefel 2 yn 16 oed a lefel 3 yn 18 oed yn berthnasol i'r cwestiwn hwn, hefyd.

**C5: Beth yw goblygiadau'r tueddiadau a amlinellir mewn cyfranogiad ôl-16 ac mewn mannau eraill yn y papur hwn ar gyfer addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog?**

Mae canfyddiadau arolygiadau craidd o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn dangos bod amrywioldeb eang yn argaeledd ac ansawdd darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn addysg bellach, ac yn arbennig ar gyfer llwybrau galwedigaethol. Bydd cynllunio strategol, cydweithio a buddsoddi yn hanfodol i gynnal llwybrau cyfrwng Cymraeg hyfyw a chreu cyfleoedd newydd, wedi eu cefnogi gan gynllunio'r gweithlu a darpariaeth o ansawdd uchel. Mae gwaith thematig Estyn ar addysg cyfrwng Cymraeg yn nodi heriau parhaus o ran recriwtio staff arbenigol, gan sicrhau parhad darpariaeth ar draws sectorau, a chynnal dewis dysgwyr ar lefelau uwch. Wrth i fwy o ddysgwyr gwblhau eu haddysg cyn-16 trwy ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, mae'n bwysig sicrhau bod llwybrau addas yn y sector ôl-16, yn enwedig mewn llwybrau galwedigaethol a thechnegol lle mae opsiynau cyfrwng Cymraeg yn fwy cyfyngedig ar hyn o bryd. Mae

cyfran uwch o lawer o ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn mynd ymlaen i chweched dosbarth ar gyfer darpariaeth ôl-16 o gymharu â dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Nid yw'n hysbys faint o ddysgwyr sy’n dewis aros mewn ysgol cyfrwng Cymraeg a dilyn cyrsiau Safon Uwch, gan eu galluogi i barhau i ddysgu yn Gymraeg, oherwydd nad oedd opsiwn i ddilyn llwybr galwedigaethol ar gael iddynt yn Gymraeg. Nid yw’r cydweithio rhwng colegau a dosbarthiadau chweched cyfrwng Cymraeg wedi’i ddatblygu’n ddigonol yn y rhan fwyaf o ardaloedd o Gymru. Hefyd, nid yw cyfleoedd i rannu staff rhwng ysgolion a cholegau i alluogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg i gael ei chyflwyno wedi eu datblygu’n ddigonol. Dylai rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol ystyried ffyrdd o annog a chymell gweithio agosach rhwng ysgolion a cholegau i gynyddu mynediad at ddarpariaeth alwedigaethol cyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-16.

**Demograffeg a dysgu gydol oes**

**C1: Sut mae darparwyr addysg drydyddol yn cynllunio ac yn paratoi ar gyfer newid demograffig sydd ar ddod yn eu hardaloedd? Pa heriau fydd hyn yn ei greu?**

Mae canfyddiadau arolygiadau craidd a thystiolaeth o grynodebau sector ein hadroddiad blynyddol yn dangos bod darparwyr yn defnyddio data lleol yn gynyddol i gynllunio’u cynnig cwricwlwm, ond mae eu capasiti i ymateb yn anghyfartal. Mae heriau penodol yn cynnwys breuder ariannol a chyfyngiadau o ran ystâd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mewn colegau addysg bellach ac ysgolion uwchradd, mae prinderau athrawon arbenigol mewn mathemateg, Cymraeg a gwyddoniaeth yn cyfyngu ar gapasiti a gwydnwch.

**C2: Beth yw’r rhwystrau cyllid, deddfwriaethol a gweinyddol rhag cynyddu cyflenwad y cyfleoedd dysgu gydol oes hyblyg a hygyrch, a’r galw amdanynt, ar lefelau is (islaw lefel 3) a lefelau uwch (uwchlaw lefel 4)?**

Mae canfyddiadau arolygiadau craidd, a gefnogir gan adborth darparwyr a gasglwyd yn ystod arolygiadau ac y cyfeirir atynt yng nghrynodebau sector yr adroddiad blynyddol, yn amlygu rhwystrau allweddol, yn cynnwys ffrydiau cyllid tameidiog, rheolau cymhwysedd cymhleth, cymorth ariannol cyfyngedig ar gyfer dysgwyr a baich gweinyddol mawr i ddarparwyr. Ar lefelau uwch, gall cyllid yn seiliedig ar fenthyciad rwystro dysgwyr sy’n oedolion. Mae ein hadolygiadau thematig o ddysgu oedolion yn nodi bod atgasedd at ddyled, yn enwedig ymhlith dysgwyr ar incwm is a dysgwyr hŷn, yn rhwystr sylweddol o hyd rhag cymryd rhan er gwaethaf anghenion medrau.

**C3: Pa newidiadau sydd angen eu gwneud i sicrhau cyfleoedd priodol i oedolion wella'u medrau sylfaenol mewn llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol ochr yn ochr â medrau galwedigaethol a dysgu arall?**

Mae canfyddiadau arolygiadau craidd o arolygiadau dysgu oedolion, prentisiaethau ac addysg bellach, wedi eu hatgyfnerthu gan dystiolaeth adolygiadau thematig, yn amlygu'r angen am fodelau addysgu a hyfforddi o ansawdd uchel sy'n ymgorffori medrau llythrennedd, rhifedd a digidol o fewn rhaglenni galwedigaethol, wedi eu cefnogi gan staff arbenigol a fframweithiau asesu a chymwysterau addas. Rydym wedi nodi bod cynllun cymwysterau medrau, a'u gofynion asesu, weithiau'n rhwystr i ddysgwyr – er enghraifft, gweler ein hadroddiad Cyflwyno Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn rhaglenni prentisiaeth.

**C4: Pa wersi y gellir eu dysgu o'r rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol, a sut gellir gwerthuso ac ehangu llwyddiannau'r polisi hwnnw?**

Mae Cyfrifon Dysgu Personol wedi bod yn effeithiol yn ennyn diddordeb oedolion mewn sectorau blaenoriaethol, yn enwedig lle mae ymgysylltiad cyflogwyr yn gryf. Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n dilyn y rhaglenni yn anghyfartal ac nid yw llwybrau dilyniant bob amser yn glir.

Mae angen gwerthuso deilliannau dysgwyr a'r effaith tymor hwy yn gryfach cyn ehangu. Mae adolygiadau thematig Estyn o gyflogadwyedd a darpariaeth medrau oedolion yn pwysleisio'r angen am olrhain dilyniant yn gliriach, yn cynnwys cyfnodau pontio i gyflogaeth gynaledig neu ddysgu pellach.

**C5: Pa addysg bellach a hyfforddiant ar gyfer oedolion 19 oed ac yn hŷn y dylid eu blaenoriaethu i'w cynnwys mewn rheoliadau i'w gwneud o dan adran 94 y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil?**

Dylid rhoi blaenoriaeth i fedrau llythrennedd, rhifedd a digidol, darpariaeth alwedigaethol yn canolbwyntio ar gyflogadwyedd, ac mewn sicrhau bod llwybrau dilyniant i lefel 3 ac yn uwch, yn enwedig yn y sectorau hynny y nodwyd eu bod yn hanfodol i economi Cymru.

### Cystadleuaeth a chydweithio

**C1: Beth yw'r rhwystrau rhag mwy o gydweithio rhwng darparwyr addysg drydyddol ar hyn o bryd? Beth yw galluogwyr cydweithio effeithiol ar hyn o bryd?**

Mae canfyddiadau arolygiadau craidd ac arsylwadau lefel system trwy grynodebau sector yr adroddiad blynyddol yn nodi sawl rhwystr ar hyn o bryd, yn cynnwys cystadleuaeth o ran cyllid, systemau atebolrwydd wedi eu cam-alinio, argaeledd annigonol opsiynau

cyfrwng Cymraeg, amgyffrediadau rhieni, costau cludiant afresymol a chostau eraill y diwrnod ysgol / coleg. Mae galluogwyr presennol a nodwyd yn cynnwys trefniadau cydweithredol cryf, arweinyddiaeth foesol gref, a gefnogir gan ddarpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer addysgu a lles dysgwyr.

Mae tystiolaeth arolygu Estyn o ddosbarthiadau chweched ysgolion yn nodi y bydd angen i drefniadau goruchwylio roi sylw penodol i ehangder a hyfywedd y cwricwlwm a dilyniant dysgwyr mewn dosbarthiadau chweched llai. Bydd rôl Medr mewn hyrwyddo cydweithio a chynllunio rhanbarthol cydlynus yn hanfodol wrth leihau risgiau yn gysylltiedig â charfanau bach, breuder y gweithlu a dewis pynciau sy'n culhau, tra'n sicrhau nad yw trefniadau atebolrwydd yn cymell darpariaeth anghynaliadwy yn anfwriadol. Mae hyn yn cyd-fynd â chyfeiriad ehangach diwygiadau ôl-16 a datblygu llwybrau dysgu 14-19 cydlynus, lle mae tystiolaeth arolygu'n amlygu pwysigrwydd cynllunio ar y cyd ar draws ysgolion, colegau a darparwyr dysgu yn y gwaith i wella'r dewis a'r dilyniant i ddysgwyr.

Caiff y dyhead am Gymru fwy cyfartal ei beryglu trwy eithrio colegau addysg bellach arbenigol rhag cael eu cydnabod yn rhan o'r sector addysg drydyddol i ystyried nifer uchel y dysgwyr yn y colegau hyn y caiff eu lleoliadau eu hariannu trwy awdurdodau lleol. Argymhellodd ein hadolygiad thematig diweddar o gwricwlwm Medrau Byw yn Annibynnol mewn colegau y dylai awdurdodau lleol weithio gyda sefydliadau addysg bellach, cyflogwyr lleol a cholegau arbenigol annibynnol (CAAau) i sicrhau mynediad teg at y ddarpariaeth addysg bellach a hyfforddiant fwyaf addas ar gyfer pob dysgwr ag ADY, yn Gymraeg ac yn Saesneg, fel ei gilydd. Mae'r amgylchedd cyllid cyfyngedig a'r pwyslais ar gydweithio ac effeithlonrwydd yn gweddu i golegau arbenigol annibynnol a sefydliadau addysg bellach sy'n gweithio gyda'i gilydd ar lefel leol er mwyn gallu diwallu ehangder anghenion dysgwyr.

**C2: A oes mwy o enghreifftiau o ysgolion a cholegau yn cydweithio i gynnal cwricwlwm eang a hygyrch mewn addysg ôl-16 ac i wella'r cyfnod pontio rhwng y sector cyn 16 a'r sector ôl-16? A oes mwy o enghreifftiau o brifysgolion yn cydweithio i gyflwyno darpariaeth gradd? A ellir datblygu hyn ymhellach i ddiogelu meysydd pwnc sydd mewn perygl?**

Mae canfyddiadau arolygiadau craidd ac adroddiadau arolygiadau cyhoeddedig Estyn yn amlygu enghreifftiau cadarnhaol o rannu darpariaeth chweched dosbarth a chyflwyno addysg uwch ar y cyd, ond mae'r rhain yn parhau'n fregus. Mae canfyddiadau arolygiadau craidd o ddosbarthiadau chweched ysgolion yn dangos bod trefniadau cydweithredol yn fwyaf effeithiol lle mae ysgolion yn cydgyfrannu amserlenni, yn rhannu staff arbenigol ac yn cynllunio eu cynnig cwricwlwm ar y cyd. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i elwa ar ystod ehangach o lwybrau academaidd a galwedigaethol nag y gallai sefydliadau unigol eu cynnal eu hunain. Dangosodd ein hadroddiad prentisiaethau iau werth cydweithio cyn 16 ar gyfer y grŵp penodol hwnnw o ddysgwyr, a arweiniodd at gyfnod pontio gwell i'r sector ôl-16 a pharhad y cwricwlwm. Er eu bod wedi dyddio ychydig erbyn hyn, mae llawer o'r

enghreifftiau a nodwyd yn Adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru yn ddilys o hyd. Rydym wedi dod o hyd i ychydig o enghreifftiau targedig iawn o gydweithio, er enghraifft rhwng sefydliadau addysg uwch ac ysgolion yn gysylltiedig â meysydd pwnc penodol. Er enghraifft, mae'r cynllun Mentora Ieithoedd Tramor Modern dan arweiniad Prifysgol Caerdydd wedi helpu cynyddu'r nifer sy'n astudio'r pynciau hyn mewn TGAU i mewn i'r sector ôl-16. Yn ein hadroddiad Ieithoedd Rhyngwladol mewn Ysgolion yng Nghymru, rydym yn nodi darpariaeth gydweithredol effeithiol ar draws 4 ysgol uwchradd i sicrhau ac ehangu darpariaeth Safon Uwch trwy e-sgol, gan liniaru heriau daearyddol a'r nifer isel sy'n dilyn pynciau.

I ddatblygu ymhellach, mae angen mwy o sefydlogrwydd mewn trefniadau ariannu a chymhellion sy'n gwobrwyo cydweithio yn hytrach na chystadleuaeth. Mae modelau llwyddiannus yn dibynnu ar drefniadau llywodraethu clir, atebolrwydd ar y cyd am ddeilliannau, yn ogystal ag ymddiriedaeth rhwng partneriaid.

**C3: Beth yw manteision ac anfanteision y farchnad heb ei chapio i israddedigion cartref, i fyfyrwyr ac i sefydliadau, fel ei gilydd? Sut mae'r sector addysg uwch yn disgwyl i'r farchnad ddatblygu dros y degawd nesaf, yn enwedig pan fydd nifer y dysgwyr 18 oed yn dechrau gostwng?**

Dim ymateb.

**C4: Ble mae risgiau 'mannau oer addysg uwch' yng Nghymru? A oes meysydd pwnc penodol dan fygythiad oherwydd cystadleuaeth yn y farchnad a newid yn newisiadau myfyrwyr?**

Dim ymateb.

**Cynaliadwyedd ariannol**

**C1: Beth yw'r enghreifftiau gorau o ddarparwyr trydyddol sy'n sicrhau effeithlonrwydd wrth gyflwyno darpariaeth cyrsiau tra'n cynnal ansawdd? A beth yw'r heriau wrth wneud hyn?**

Mae canfyddiadau arolygiadau craidd a thystiolaeth o grynodebau sector yr adroddiad blynyddol yn nodi arfer orau, yn cynnwys rhesymoli'r cwricwlwm, gwasanaethau ar y cyd, a darpariaeth ddigidol. Mae tystiolaeth arolygu Estyn o ddosbarthiadau chweched ysgolion a cholegau addysg bellach yn dangos bod rhesymoli pynciau â chofrestriadau isel a datblygu modelau cyflwyno ar y cyd yn gallu helpu cynnal ansawdd, ond mae angen arweinyddiaeth gref a chyfathrebu clir â dysgwyr a rhieni ar gyfer y dulliau hyn. Er

enghraifft, roedd darpariaeth ieithoedd rhyngwladol Safon Uwch ar y cyd trwy ddull hybrid ar draws ysgolion uwchradd yn Sir Fynwy yn galluogi darpariaeth fwy cost effeithiol. Mewn colegau addysg bellach, ceir enghreifftiau da o raglenni lefel gymysg i gefnogi cyflwyno a dilyniant.

Mae heriau'n cynnwys cynnal morâl staff, cymorth i ddysgwyr a sicrhau ansawdd. Mae adolygiadau thematig Estyn ar gapasiti'r gweithlu yn amlygu pwysau cynyddol ar faich gwaith staff, anawsterau recriwtio a chadw, ynghyd â'r angen am ddysgu proffesiynol cynaledig.

**C2: Ble mae cyfleoedd am arbedion costau wrth gyflwyno addysg drydyddol?**

Mae cyfleoedd i arbed costau wrth gyflwyno addysg drydyddol yn cynnwys darpariaeth gydweithredol, ystadau a rennir, caffael ar y cyd a chynllunio darpariaeth yn rhanbarthol. Fodd bynnag, yn aml, mae angen buddsoddiad ymlaen llaw i gyflawni arbedion o'r fath. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod cydweithio yn gallu cynyddu costau – er enghraifft, trwy gynyddu costau cludiant i ddefnyddio darpariaeth ar wahanol safleoedd.

Mewn rhai achosion, mae awdurdodau lleol wedi bod yn araf i fynd i'r afael â dosbarthiadau chweched bach, sy'n ddrud i'w rhedeg oherwydd meintiau dosbarthiadau a chymarebau athro i ddysgwr, ac yn cynnig ystod gyfyngedig iawn o opsiynau lefel 3 ar gyfer dysgwyr.

**C3: Pa dystiolaeth bellach sydd ar gael ynghylch y rhwystrau o ran costau rhag cael mynediad at addysg drydyddol i ddysgwyr a myfyrwyr?**

Mae canfyddiadau arolygiadau craidd, yn cynnwys llais y dysgwr a gasglwyd yn ystod arolygiadau ac a adlewyrchwyd yng nghrynodebau sector yr adroddiad blynyddol, yn amlygu bod cludiant, llety, mynediad digidol a chostau byw yn rhwystrau mawr, yn enwedig i ddysgwyr o aelwydydd incwm isel.

**C4: Ble ddylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cymorth uniongyrchol (gwariant grant) ac anuniongyrchol (gwariant benthyciadau) ar gyfer addysg drydyddol? Pa dystiolaeth sydd ar gael ynghylch yr enillion cymdeithasol / economaidd a phreifat / cyhoeddus gorau ar fuddsoddiadau o'r fath?**

Mae'n bwysig uchafu cyfran y dysgwyr sy'n ennill cymwysterau lefel 2 mewn llythrennedd a rhifedd, gan fod ymchwil yn dangos pa mor bwysig yw cymwysterau o'r fath fel pyrth at gyflogaeth neu ddysgu pellach. Bydd angen buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i gynyddu opsiynau galwedigaethol, ac i gefnogi'r targed cenedlaethol am filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**C5: Ble ddylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu buddsoddiadau cyfalaf mewn seilwaith ac ystadau addysg drydyddol yn y dyfodol?**

Mae ystod o ystyriaethau, yn cynnwys: moderneiddio amgylcheddau dysgu, seilwaith ddigidol, ac ystadau sy'n cefnogi cydweithio a llwybrau sy'n gynaliadwy yn ariannol a lleihau unrhyw heriau ehangach o ran cludiant neu hygyrchedd.

Nid oes gan Gymru strategaeth gydlynus ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol ar hyn o bryd, yn enwedig yn 14-16 oed. Pe bai Cymru yn datblygu gweledigaeth tymor hir i ddatblygu llwybrau galwedigaethol ar gyfer yr holl ddysgwyr 14-16 oed, yna bydd angen buddsoddiad sylweddol mewn ystadau awdurdodau lleol neu golegau presennol ar gyfer hyn.

## Cymunedau a'r economi

**C1: Pa elfennau o ddata Deilliannau Addysg Hydredol ddylai Llywodraeth Cymru a Medr flaenoriaethu i ddeall deilliannau'r farchnad lafur o addysg drydyddol yn well?**

Dylid rhoi blaenoriaeth i weddu cwblhau cyrsiau yn ôl pynciau a chymwysterau i statws cyflogaeth, yn cynnwys cyflogaeth gynaledig, dilyniant enillion a chyfraddau cadw rhanbarthol, wedi eu gwahanu yn ôl nodweddion dysgwyr ac yn ôl y math o ddarparwr a chwrs. Mae tystiolaeth arolygu Estyn o ddosbarthiadau chweched ysgolion yn awgrymu bod patrymau dilyniant yn amrywio'n sylweddol rhwng llwybrau academaidd a galwedigaethol, sy'n atgyfnerthu pwysigrwydd dadansoddi cynnil.

**C2: Ar wahân i Ddeilliannau Addysg Hydredol, pa ddata a gwybodaeth arall ddylid eu defnyddio'n well i ddeall deilliannau addysg drydyddol y farchnad lafur?**

Dylid defnyddio adborth gan gyflogwyr, data cyrchfannau dysgwyr, a gwybodaeth am fedrau rhanbarthol yn fwy systematig ochr yn ochr â Deilliannau Addysg Hydredol. Mae gwerth cyfyngedig i ddata cyrchfannau dysgwyr hyn o bryd. Mae hyn oherwydd bod data ond yn cael ei gofnodi 8 wythnos i mewn i Flwyddyn 12, ac rydym yn gwybod o gyfraddau cwblhau cyrsiau fod cyfran sylweddol o ddysgwyr yn rhoi'r gorau i ddilyn eu cyrsiau ar ôl hyn. Mae hefyd wedi'i gyfyngu oherwydd ei fod ond yn ddefnyddiol ar gyfer dysgwyr 16 oed, gan fod y data ar gyfer dysgwyr 17 ac 18 oed ddim ond yn cael ei gasglu ar gyfer dysgwyr sy'n gadael dosbarthiadau chweched.

**C3: Sut orau y gall cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid ymchwil fanteisio i'r eithaf ar gyllid ledled y Deyrnas Unedig ac ysgogi buddsoddiad o'r sector preifat?**

Dim ymateb.

**C4: Gallai cydweithio ac arbenigaeth sefydliadau greu effeithlonrwydd ac effeithiau cydgasglu cryfach ar gyfer addysgu, cyflogaeth ac ymchwil, datblygu ac arloesi. Pa dystiolaeth y gellir ei defnyddio yn sail i hyn, ac a yw'n awgrymu pa arbenigaeth ddylai ddigwydd? Gallai hyn greu risgiau a heriau, hefyd. Beth ydyn nhw?**

Lle mae dosbarthiadau chweched wedi cau yn y blynyddoedd diwethaf, nid ydym wedi gweld materion ôl-16 sylweddol yn codi ar gyfer dysgwyr yn yr ysgolion hyn. Lle mae colegau wedi uno yn y ddau ddegawd diwethaf, nid ydym wedi gweld materion sylweddol i ddysgwyr. Yn aml, mae arbenigaeth yn golygu mai un campws penodol yn unig o fewn coleg sy'n cynnig rhai cyrsiau, sy'n anochel yn gwneud y rhain yn anos i ddysgwyr nad ydynt yn byw ger y campws hwnnw gael mynediad atynt. Fodd bynnag, mae'n galluogi'r ddarpariaeth i fod yn hyfyw yn ariannol ac o bosibl yn darparu profiad dysgu o ansawdd uchel.

**C5: Pa gyfleoedd a bygythiadau y mae deallusrwydd artiffisial yn eu cynnig i ddyfodol addysg drydyddol? Pa oblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn sgil y defnydd o AI i ddarparwyr ac i bolisi Llywodraeth Cymru?**

Yn ddiweddar, cyhoeddom adroddiad ar AI mewn colegau AB, sef: [Archwilio'r Potensial: Deallusrwydd Artiffisial mewn Addysg Bellach.]

Mae tystiolaeth arolygu, gan gynnwys canfyddiadau o waith thematig diweddar ar ddeallusrwydd artiffisial mewn addysg bellach, yn dangos bod AI yn cyflwyno cyfleoedd sylweddol i wella addysgu, dysgu, lles dysgwyr ac effeithlonrwydd sefydliadol ar draws y system drydyddol. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hon hefyd yn amlygu risgiau sy'n dod i'r amlwg sy'n mynnu disgwyliadau cenedlaethol clir a goruchwyliaeth gydlynol o systemau, wedi'u hategu gan ddysgu proffesiynol parhaus.

O ran cyfleoedd, mae dysgwyr yn defnyddio AI yn fwyfwy fel offeryn cefnogi astudio, gan gynnwys i grynhoi gwybodaeth, strwythuro gwaith ysgrifenedig, creu deunyddiau adolygu a chefnogi dysgu annibynnol. Mae'r manteision hyn yn arbennig o amlwg ymhlith dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys dysgwyr niwrowahanol

a'r rhai sydd ag anghenion llythrennedd neu rifedd, lle gall AI gefnogi hyder, hygyrchedd a dysgu personoledig.

Mae canfyddiadau arolygu hefyd yn tynnu sylw at ddefnydd cynyddol o AI gan staff i'w cynorthwyo i gynllunio gwersi, gwahaniaethu, datblygu adnoddau ac adborth ffurfiannol. Mewn enghreifftiau cryfach, mae AI yn cyfrannu at adborth mwy amserol ac eglur, tra bod crebwyll proffesiynol yn ganolog o hyd. Ar lefel sefydliadol, mae colegau'n dechrau defnyddio AI i gefnogi derbyniadau, gwasanaethau dysgwyr, gwirio hygyrchedd a phrosesau mewnol, lleihau'r baich gweinyddol a galluogi staff i ganolbwyntio mwy ar

gefnogi dysgwyr yn uniongyrchol. Mae enghreifftiau cynnar hefyd o AI yn cefnogi darpariaeth ddwyieithog a chynhwysiant.

O ran y risgiau a'r heriau cysylltiedig, un canfyddiad cyson yw gweithredu afreolaidd ac anghyson ar draws darparwyr a meysydd cwricwlwm. Yn aml, mae dysgwyr yn crybwyll diffyg eglurder ynghylch y defnydd derbyniol o AI, yn enwedig mewn gwaith asesedig, sy'n arwain at bryder, ynghyd â negeseuon cymysg gan staff a llai o ymddiriedaeth. Mae arweiniad anghyson gan gyrff dyfarnu yn gwaethygu'r ansicrwydd hwn. Mae tystiolaeth hefyd yn tynnu sylw at risgiau sy'n dod i'r amlwg o ran dilysrwydd asesiadau, gan nodi y gallai dibyniaeth barhaus at asesiadau ysgrifenedig traddodiadol ddod yn fwyfwy anghynaliadwy heb ailddylunio tymor hwy.

Nid yw materion moesegol, diogelwch a diogelu sy'n ymwneud ag AI wedi'u datblygu'n ddigonol o hyd yn y profiad cyffredinol i ddysgwyr. Er bod darparwyr yn cydnabod risgiau sy'n ymwneud â diogelu data, tuedd, gorddibyniaeth ac uniondeb academaidd, mae tystiolaeth yn dangos bod datblygiad systemig o lythrennedd beirniadol dysgwyr mewn AI yn gyfyngedig. Hefyd, mae pryderon yn dod i'r amlwg yn ymwneud â fforddiadwyedd, cynaliadwyedd a mynediad cyfartal, gan fod dysgwyr yn aml yn dibynnu at offerynnau am ddim neu offerynnau cyfyngedig sy'n wahanol i'r rhai a ddefnyddir gan staff neu ddysgwyr eraill.

O ran yr effeithiau posibl ar bolisi Llywodraeth Cymru, mae tystiolaeth yn awgrymu bod achos clir o blaid disgwyliadau cenedlaethol clir ar ddefnydd derbyniol o DI, uniondeb asesu a diogelu dysgwyr, ochr yn ochr â digon o hyblygrwydd i gefnogi arloesedd. Bydd arweiniad cydgysylltiedig i'r sector, dysgu proffesiynol a chydweithio yn bwysig er mwyn osgoi darnio, rheolau pwysau o ran costau a hybu mynediad cyfartal. Dylai polisi AI bwysleisio eglurder, trylowyder a defnydd moesegol, gan ddefnyddio AI fel offeryn i wella dysgu, cynhwysiant ac arfer broffesiynol, yn hytrach na disodli crebwyll dynol neu'r broses wybyddol o ddysgu.